**Adroddiad yn dilyn monitro**

**Lefel y gweithgarwch dilynol: Ddim mewn categori gweithgarwch dilynol**

# Cylch Chwarae Sŵn y Don

**Ysgol Sŵn y Don**
**Penmaenrhos**
**Hen Golwyn**
**Conwy**
**LL29 9LL**

**Dyddiad yr ymweliad:**
**Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf, ac mae AGC yn fodlon bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, o ganlyniad i’r camau a gymerwyd i fynd i’r afael â’r diffyg cydymffurfio.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r lleoliad oddi ar y rhestr o leoliadau sydd angen gwelliant â ffocws, ac mae AGC yn dirwyn ei phroses gydymffurfio i ben.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu ac iaith yr holl blant

Ar ôl yr arolygiad ar y cyd, mae ymarferwyr wedi dod yn fwy ymwybodol o’u rôl o ran datblygu medrau cyfathrebu ac iaith plant. Ar hyn o bryd, mae un ymarferwr yn mynychu cwrs lleferydd ac iaith, ac yn rhannu’r wybodaeth hon yn ddefnyddiol ag ymarferwyr eraill. Ceir rhyngweithio gwell â’r plant, ac mae pob un o’r ymarferwyr yn gwneud yn siŵr eu bod ar yr un lefel â’r plant i gyfathrebu â nhw, ac yn gwrando’n ofalus ar eu hanghenion a’u syniadau.

Mae ymarferwyr yn symleiddio eu hiaith yn briodol i helpu plant i setlo a diwallu eu hanghenion unigol lle mae angen. Maent yn addasu eu hiaith yn briodol ac yn cyflwyno geirfa newydd i ddatblygu medrau cyfathrebu’r plant. Maent yn defnyddio holi yn fedrus i annog plant i wneud penderfyniadau wrth iddynt chwarae, ac ymestyn eu dysgu.

Ceir prosesau addas i sicrhau bod ymarferwyr yn nodi anghenion cyfathrebu plant yn gynnar. Maent yn gweithio’n effeithiol gyda chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol i gynllunio gweithgareddau sy’n datblygu medrau cyfathrebu ac iaith plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ystod y sesiynau. Erbyn hyn, maent yn defnyddio’r Gymraeg ar gyfer arferion, a gwneir defnydd cynyddol o ganeuon a rhigymau. Mae llawer o blant yn awr yn hyderus i ddefnyddio’r Gymraeg i ateb y gofrestr yn ystod amser byrbryd.

### A2. Defnyddio arsylwadau o chwarae ac archwilio'r plant i gefnogi eu dysgu a’u datblygiad

Mae ymarferwyr wedi dechrau gwneud arsylwadau rheolaidd o blant wrth iddynt chwarae, ac i gofnodi eu cynnydd. Maent yn archwilio sut orau i ddefnyddio’r rhain i sicrhau eu bod yn eu hystyried wrth gynllunio yn y dyfodol, fel eu bod yn diwallu anghenion dysgu a datblygiadol pob un o’r plant. Er mai megis dechrau datblygu y mae’r gwaith hwn, mae’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddysgu’r plant, ac ar ansawdd y ddarpariaeth gyffredinol yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn fwy ymatebol i

ffafriaethau ac anghenion unigol plant. Maent yn ystyried diddordebau plant yn briodol wrth addasu eu darpariaeth. Er enghraifft, maent yn dod o hyd i fathodynnau i blentyn eu defnyddio pan mae’n dweud bod ei doli wedi brifo’i choes.

Yn ogystal ag arsylwadau mwy ffurfiol, mae ymarferwyr yn ymateb yn gyflym ac yn dda i anghenion plant wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â nhw. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i sefyll yn ôl i alluogi’r plant i arbrofi drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwneud awgrymiadau buddiol i alluogi plant i gymryd print deilen wrth ddefnyddio toes chwarae, ond wedyn yn sefyll yn ôl ac yn gadael i’r plant arbrofi drostynt eu hunain.

### A3. Datblygu’r amgylchedd ymhellach i hyrwyddo dysgu trwy chwarae ar draws y cwricwlwm

Mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau sylweddol i’r amgylchedd ac wedi’i ddatblygu’n llwyddiannus i sicrhau bod y mannau dysgu a chwarae yn cael eu cynllunio’n dda i ddiwallu anghenion pob un o’r plant. Maent wedi moderneiddio ac aildrefnu’r brif ystafell sylfaen ac wedi adleoli’r clwb y tu allan i’r ysgol i ardal arall. Caiff plant fwy o gyfleoedd i archwilio trwy ystod ehangach o adnoddau ac offer sy’n briodol i oedran datblygiadol. Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd defnyddiol i godi ymwybyddiaeth plant am y byd o’u cwmpas yn dda. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad plant a’r ffordd y maent yn awr yn gallu chwarae a dysgu.

### A4. Cryfhau prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i sicrhau effaith glir ar ddysgu a datblygiad

Ers yr arolygiad ar y cyd, gwnaed newidiadau i arweinyddiaeth y lleoliad. Mae’r arweinwyr newydd yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i nodi cryfderau’r lleoliad a’i feysydd i’w gwella. Maent yn cynnwys safbwyntiau ymarferwyr, plant ac asiantaethau allanol yn briodol yn y gwerthusiad hwn. Erbyn hyn, mae proses glir ar gyfer hunanwerthuso, ac mae deilliannau hyn yn bwydo i mewn i gynllunio gwelliant y lleoliad. Mabwysiadwyd y broses newydd hon yn gyflym ar ôl yr arolygiad ar y cyd, ac mae eisoes wedi ysgogi gwelliannau sylweddol i arferion y lleoliad.

Caiff pob un o’r ymarferwyr eu cynnwys yn y prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, ac maent yn cyfrannu atynt yn ystyriol. Maent yn gwybod bod eu barnau’n cael eu gwerthfawrogi ac y gwrandewir arnynt. Mae arweinwyr wedi cyflwyno systemau addas ar gyfer arfarnu a goruchwylio ymarferwyr, ac o ganlyniad, mae staff yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am welliant. Er enghraifft, mae un aelod o staff bellach yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu’r Gymraeg.

Mae plant hŷn yn mynegi eu safbwyntiau a’u syniadau trwy holiaduron, ac mae gan bob plentyn lais cryfach yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn ystyried safbwyntiau’r plant yn dda; er enghraifft, fe wnaethant ail-leoli’r ddarpariaeth ar ôl yr ysgol a gwella’r amgylchedd a’r cyfleoedd a gynigir ar ôl gwrando ar y plant. Mae arweinwyr wedi newid strwythur y sesiynau ar gyfer plant iau i ganiatáu cyfnodau cynaledig o chwarae di-dor iddynt. Bu ffocws ar ddatblygu amgylchedd pwyllog i blant ddysgu. Mae’n glir gweld effaith gadarnhaol eu camau gweithredu ar ymddygiad a lles plant.

## A5.  Sicrhau bod gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol sy'n cael eu dilyn yn gyson

Mae arweinwyr wedi diweddaru, diwygio ac adolygu dogfennau, polisïau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a lles y lleoliad. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn eu deall ac yn eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson.

## A6. Mynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau clir mewn gweithdrefnau diogelu, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymarferwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth well o reoli risg, ac maent yn goruchwylio plant yn briodol. Mae asesiadau risg newydd ar waith ac yn cael eu dilyn, gan gynnwys cofnodi gwiriadau dyddiol ac ymarferion tân rheolaidd. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau hylendid yn effeithiol. Caiff yr holl gofnodion eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol erbyn hyn. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod gwybodaeth lawn a boddhaol am recriwtio bellach ar waith ar gyfer yr holl ymarferwyr, ac maent yn eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cynnal arfarniadau blynyddol.

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a / neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Nid yw'r staff bob amser yn dilyn ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad er mwyn diogelu’r plant yn effeithiol. Dylid sicrhau bod y staff yn dilyn ac yn gweithredu gweithdrefnau'r lleoliad yn gywir bob amser. | Cyflawnwyd |
| 25 | Nid oedd nifer o'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant wedi'u nodi yn y lleoliad. Dylid sicrhau bod pob rhan o'r safle perthnasol yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y plant. | Cyflawnwyd |
| 28 | Nid yw'r staff a gyflogir i weithio yn y lleoliad wedi'u fetio'n ddigonol. Dylid sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer pob aelod o staff. | Cyflawnwyd |
| 27 | Nid yw'r plant bob amser yn derbyn gofal gan staff â chymwysterau addas ar gyfer eu rolau penodol. Dylid | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | sicrhau bod pob plentyn yn derbyn gofal gan staff â chymwysterau addas. | |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid oedd pob gweithiwr sy'n gofalu am y plant yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd. Dylid sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd. | Cyflawnwyd |
| 31 | Nid yw AGC wedi cael gwybod am newidiadau staff o fewn yr amserlenni gofynnol. Dylid sicrhau bod yr holl hysbysiadau am newidiadau staff yn cael eu gwneud mewn modd amserol. | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 12 Rhagfyr 2022